# Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir

Cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 12fed o Dachwedd 2020

1. Presennol: Cynghorwyr
   D. Jones-Morris; L A James; M. Lynch; B.Jones; M. Baines; J. Pierce; D. W. Jones; J Lewis a'r Clerc E Jones
2. Ymddiheuriadau:
   Cynghorwyr E. Jones J. Griffiths; H Griffiths; T A Williams;
3. Ethol Cadeirydd
   Cafodd y Cyng D W Jones ei ethol i'r gadair ag ychwanegodd ei fodlonrwydd i barhau yn y gadair tra byddai angen.
   Offrymodd weddi cyn croesawy pawb oedd bresennol.
4. Datgan buddiant
   Esbonwyd tae unrhyw un angen datgan buddiant byddai rhaid gwneud hynny ar lafar i'r Clerc allu ei gofnodi – Cyng J Lewis yn datgan buddiant pwynt 7
   Derbyn Nawdd gan ei fod yn aelod o grwp oedd wedi gwneud cais
5. Derbyn cofnodion 08fed o Hydref 2020 – Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir
   Cyng L A James yn cynnig a Cyng D Jones-Morris yn eilio
6. Materion yn codi o'r cofnodion
   a. Cais Cynllunio Deintyddfa Parc Menai wedi ei ail gyflwyno
   b. Arwyddion llwybr i Dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Glan Menai yn dal i achosi pryderon ond yr adran tramwy a chyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal trafodaethau
7. Materion ariannol
   Rhanwyd cofnodion IBC 28-10-20 gan nodi nad oeddent wedi cael eu cymeradwyo eto.
   Rhanwyd y fantolen ariannol hefo gweddill y Cynghorwyr.
   Ceisiadau Nawdd.
   Cymeradwywyd argymhelliad yr IBC i gyfrannu £300 tuag at gostau cynnal a chadw 'Parchu Pentir' a £300 tuag at gostau gweinyddu 'Llais Ogwan'
   Yn dilyn gwahoddiad i ymweld a'r dablygiadau yn y Ganolfan Newydd/Ysgol y Faenol ag i ddewis lliwiau ar ei chyfer **cytunwyd i wahodd Pwyllgor y Ganolfan i ddewis lliwiau.**
   **Ychwanegwyd fod peth pryder ynglyn a'r ochr drydannol a'r lloriau**
   Angen cyfarfodydd pellach i ddatrus rhain
   **Cyng L A James mewn cyswllt yn aml gyda'r Rheolwr prosiect Mr E G Jones a'r rheolwr safle Mr E Roberts**
   **Clerc i gadw mewn cyswllt a swyddogion Cyngor Gwynedd**

   Archwilwyr allannol – Wedi derbyn ymateb ddwy waith yn gofyn am ymateb pellach i 5 pwynt tro cyntaf a 3 pwynt yr eildro
   'Roedd y Clerc wedi ymateb ag wedi rhannu y pwyntiau a'i ymatebion yn electronig

8 **Materion y Clerc**
   a. Diffib  Cytuno ar union leoliadau
      Cytunwyd ar Minffordd Rhyd ygroes a Stad yY Rhos gan gofio hefyd fod angen gosod offer Glasinfryn hefyd ar bolyn Stryd

   b. Lon Llanerch  Ymateb adran tramwy
      Adran tramwy wedi ymweld a darganfod fod pibell wedi cau yn achosi'r dwr y lifo dros y llwybr. Am ail-ymweld hefo Cyfoeth Naturiol Cymru i raglennu gwaith

   c. Ymweliad i'r Ganolfan newydd  Nodiadau dan IBC/28-10-20 uchod

8. Materion y Cynghorwyr
   - Cyng L A James **Delwedd/Brandio**

     Wrth edrych ar ein logo ar gyfer y ganolfan newydd credai ei bod yn amserol o edrych ar ei foderneiddio ar gyfer 21 ganrif a rhannu logo cwmni oedd wedi mynd drwy'r broses. Pawb o'r un farn a gofynnwyd i'r **Clerc edrych am amcanbrisiau gan gwmniau proffesiynnol**

   - Cyng M Baines **Stad Redrow** (os oes diweddaraiad) – addewid fod gwaith ar y ffyrdd ar fin dechrau ond y trigolion yn dal yn bryderus am eu gwerth am arian o'r Cwmni sydd i fod yn gwneud gwaith cynnal a chadw

     **Ffens Coed y Maes** Digwyddiadau o ddringo dros y ffens newydd wedi digwydd ers ei gosod ond mater i'r Heddlu i'w datrus hynny

   - Cyng M Lynch Gwerthiant Faenol Arms (os oes diweddariad)
     i. Wedi cael trafodaethau hefo 2 fenter tebyg.
     ii. Am sefydlu grwp arwahan i 'Parchu Pentir' i Grwp Faenol neu Ffrindiau y Faenol
     iii. Mae cefnogaeth odduetu 200
     iv. Angen ystyried sefydlu pwyllgor gwaith i edrych ar gyfansoddiadau a chyfranddaliadau
     v. Chwilio tuag at sefydlu lle a chroeso Cymraeg a chymreig ei naws

   - Cyng J Griffiths Llwybr Glasinfryn i Waen Wen.
     - Mae'r llwybr yma yn ymestyniad o'r trac heibio Maes Parcio'r Ganolfan ag o bosib yn cyfrannu tuag at ddifrodi y trac oherwydd y dwr sy'n llifo drosto

   Mae mater y trac hefo'n cyfreithwyr ers o leiaf 2014 ag wedi ei ail-godi yn ddiweddar

Mynegwyd pryder ynglyn a'r gwasanaeth oedd y Cyngor yn ei dderbyn gan ein Cyfreithwyr

Daeth y Cyfarfod i ben 9.00